Grŵp Llandrillo Menai

adroddiad blynyddol
annual report

cynnwys contents

2 Lleoliadau'r Campysau / Aelodau'r Bwrdd
3 Rhagair
4 Y Cynnydd a Wnaed o Ran y Nodau Strategol
9 Canlyniadau Arolwg
10 Penawdau Arianol
12 Cenhadaeth / Ein Gwerthoedd

2 Campus Locations / Board Members
3 Foreword
4 Progress towards Strategic Goals
9 Survey Results
10 Financial Headlines
12 Mission / Our Values

lleoliadau'r campysau campus locations



Allwedd / Key

Campysau Coleg Llandrillo
Coleg Llandrillo Campuses

Campysau Coleg Menai
Coleg Menai Campuses

Campysau Coleg Meirion-Dwyfor
Coleg Meirion-Dwyfor Campuses

aelodau'r bwrdd board members

Dr Roy Bichan
(Cadeirydd / Chair)

Dr Griff Jones
(Is-Gadeirydd / Vice Chair)

Mr John Bellis
Mr Andy Billcliff
Mr Glyn Catley MBE (tan / until 03/16)
Mr Dilwyn Evans
Mrs Helen Halpin
Dr Ann Hynes (tan / until 03/16)
Mr Glyn Jones OBE (tan / until 07/16)
Mr Chris Jackson OBE (tan / until 03/16)
Mrs Lynne Joannou
Mrs Mair Jones OBE (tan / until 03/16)
Cyng / Cllr Wyn Jones
Mr Peter Lavin
Mr Justin McCoy
Mrs Shân Oliver
Mrs Sara Pattinson (tan / until 07/16)
Mr Hedd Pugh
Mr John Pierce-Williams
Miss Marian Pryor
Cyng / Cllr Gareth Roberts
Mr Alun Thomas
Mrs Derwena Watkin
Mr David Williams MBE
Mr Harri Fôn Williams (tan / until 07/16)

Toby Prosser YH / JP
(Swyddog Llywodraethu'r Grŵp /
Grŵp Governance Officer)

Dr Roy Bichan
Cadeirydd
Chair

Dafydd Evans
Prif Weithredwr
Chief Executive Officer

rhagair / foreword

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn am y flwyddyn 2015-16.

Fel gweddill y sector cyhoeddus, parhaodd Grŵp Llandrillo i wynebu pwysau ariannol o ganlyniad i fesurau darbodus Llywodraeth y Deyrnas Unedig, economi leol wledig sy'n gwegian, ac addasiadau negyddol sylweddol i bensiynau. Fodd bynnag, llwyddasom i gynhyrchu dros £1m o gyllid gweithredol a gwelwyd gwelliant pellach yng nghanlyniadau'r myfyrwyr, gyda chyfradd lwyddo'r ddarpariaeth addysg bellach yn codi i 88%. Pleser arbennig yw nodi bod cyfradd lwyddo'r myfyrwyr llawn amser wedi codi 2% a'u bod wedi cael canlyniadau campus yn yr arholiadau Lefel A. Rydym yn ddyledus i dîm ymroddgar a gweithgar o staff addysgu, staff cefnogi a rheolwyr am wneud y llwyddiant hwn yn bosibl, er gwaethaf yr heriau.

Cyflawnodd y myfyrwyr sawl camp nodedig yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys dwy o'n hyfforddeion yn cael eu cydnabod yn genedlaethol, gan ennill teitlau Hyfforddeion y Flwyddyn. Disgleiriodd ein staff hefyd, gyda Mark McDonough yn cael ei enwi'n Diwtor y Flwyddyn (Cymru) am ei waith yn datblygu'r cwricwlwm ynni adnewyddadwy.

Parhawn i gydweithio'n agos â diwydiant ac mae ein cysylltiadau allweddol â chwmnïau fel Horizon, RWE a Babcock yn dal i ffynnu a datblygu. Ond, sylweddolwn fel sefydliad fod ein heconomi leol yn ddibynnol ar gwmnïau llai ac rydym wedi'u cefnogi hwythau drwy ddarparu bron i 2000 o brentisiaid yn yr ardal a bu dros 9065 o weithwyr mewn cyrsiau gwella sgiliau.

Dal i ddatblygu mae ein hystâd a'n hisadeiledd, ac yn 2015-16 rhoddwyd pwyslais penodol ar ddatblygu ein hisadeiledd TG. Er mwyn ymateb i alwad ein myfyrwyr am Wi-Fi cyflymach ac ehangach, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rhwydwaith sydd, fwy na thebyg, y rhwydwaith Wi-Fi un-pwrpas mwyaf yng Nghymru.

Mae gwrando ar ein myfyrwyr yn rhan allweddol o'n llwyddiant ac adlewyrchir hyn yn yr adborth rhagorol a gawsom gan y myfyrwyr, yn enwedig ein myfyrwyr AU, yn yr arolwg a gynhaliwyd eleni. Yn benodol, gosododd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y Grŵp ymhlith Prifysgolion gorau'r Deyrnas Unedig.

Bu'r Grŵp hefyd yn cydweithio'n glos â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru; elfen allweddol oedd datblygu cyfres o brosiectau refeniw Cronfa Gymdeithasol Ewrop i fynd i'r afael ag anghenion y rhanbarth o ran sgiliau ac ag ymddieithrio ymhlith yr ifanc. Mae'r prosiectau bellach ar waith a byddant yn darparu cymorth ariannol derbyniol er mwyn i'r Grŵp weithio ym maes ymgysylltu â chyflogwyr ac adfywio cymunedau. Rydym yn gwirioneddol obeithio y bydd cwmnïau lleol yn gweld yn dda i fanteisio ar y cyfleoedd hyn tra bydd cyllid Ewropeaidd o'r fath ar gael.

Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd ein Prif Weithredwr blaenorol, Mr Glyn Jones, ar ôl arwain y Grŵp yn llwyddiannus iawn. Diolchwn iddo am ei arweinyddiaeth a dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Yn ogystal, wedi blynyddoedd o roi o'u hamser a'u harbenigedd, ymddeolodd sawl aelod o'r Bwrdd, sef Mrs Mair Jones, Mr Glyn Catley a Mr Chris Jackson. Yn eu tro, bu'r tri yn Gadeiryddion eu priod Fyrddau.

I gloi, rydym yn falch o nodi bod y Grŵp wedi llwyddo i wrthsefyll sawl her ac wedi parhau i ddatblygu ei adnoddau, gan sicrhau bod y myfyrwyr yn cael canlyniadau o'r radd flaenaf. Rydym yn hyderus y bydd y Grŵp yn parhau i gynnig y ddarpariaeth orau bosibl yn y dyfodol ac y bydd, drwy arloesi, yn parhau i wella ansawdd y ddarpariaeth honno.

It is a pleasure to present this annual report for the year 2015-16.

Grŵp Llandrillo Menai, in common with the rest of the public sector, continued to come under financial pressure as a consequence of the UK Government's austerity measures, in addition to the rural local economy, which is struggling, and significant negative pension adjustments. However, we still managed to generate over £1m in operating cash and further improved student outcomes to a success rate of 88% for further education provision. Particularly pleasing was a 2% increase in full-time student success and a strong A Level outcome. These results are due to a committed and hardworking team of teaching and support staff and managers who have enabled this success, despite the challenges.

There were several notable achievements by students during the course of the year, including two of our trainees being recognised at a national level, winning Trainees of the Year. Our staff also shone, with Mark McDonough being recognised as the Welsh Tutor of the Year, for his work in developing the renewables curriculum offer.

We continue to work closely with industry and key relationships with companies such as Horizon, RWE and Babcock continue to flourish and develop. However, we recognise as an organisation that our local economy is driven by smaller companies and we have supported them by providing nearly 2000 apprentices in the area. In addition, over 9065 employees have attended upskilling courses.

Our estate and infrastructure continues to develop, with 2015-16 seeing a particular emphasis on our IT infrastructure. Responding to our students call for a faster and more extensive Wi-Fi capability, we have invested significantly to create probably the largest dedicated Wi-Fi network in Wales.

Listening to our students is a key feature of our success and this is reflected in the excellent student survey feedback we received this year, in particular from our HE students. Notably the Quality Assurance Agency for Higher Education placed the Grŵp amongst the top universities in the UK.

The Grŵp has also been working closely with the North Wales Economic Ambition Board (NWEAB); a key driver of which has been the development of a series of European Social Fund (ESF) revenue projects to support the skills needs of the region and to tackle youth disengagement. The projects are now in place and will provide a welcome package of funding support for the Grŵp's work on employer engagement and community regeneration. We sincerely hope that local companies will see fit to maximise on these opportunities while such EU funding is available.

During the year, our previous Chief Executive, Mr Glyn Jones, retired, having taken the Grŵp forward with great success. We thank him for his leadership and wish him well in his retirement. Several Board Members also retired, having given many years of their time and expertise, in particular Mrs Mair Jones, Mr Glyn Catley and Mr Chris Jackson, who, all in their time, served as Chairs of their respective Boards.

In conclusion, we are pleased to note that the Grŵp has withstood many challenges and continued to develop its resources and high quality results for its students. We look forward with confidence that the Grŵp will continue to offer the best and, through innovation, keep on the path of continued quality improvement.

y cynnydd a wnaed o ran y nodau strategol
progress towards strategic goals

nod strategol
strategic goal

1 sicrhau llwyddiant rhagorol i'n myfyrwyr
achieve excellent student success

	Addysg Bellach Further Education		
	2015/16	2014/15	2013/14
Cyflawniad Completion	92%	92%	92%
Cyrhaeddiad Attainment	95%	95%	93%
Cwblhau'n Llwyddiannus Successful Completion	88%	87%	85%

Yn dilyn ei adolygiad fis Mawrth 2016, cadarnhaodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ansawdd a safonau darpariaeth y Grŵp.

The Quality Assurance Agency for Higher Education (QAA) confirmed the quality and standards of provision at the Grŵp, following its review in March 2016.

QAA
UK Quality Assured

Yn ôl adolygwyr y QAA, roedd safonau academaidd y Grŵp, ansawdd y cyfleoedd dysgu a roddir i fyfyrwyr, ynghyd ag ansawdd y wybodaeth am y cyfleoedd dysgu hynny, yn bodloni disgwyliadau'r Deyrnas Unedig. Yn ogystal â hynny, roedd Grŵp Llandrillo Menai'n un o bedwar Coleg Addysg Bellach allan o 62 ledled Cymru a Lloegr i dderbyn cymeradwyaeth gan y QAA am wella cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr.

Gall y Grŵp yn awr arddangos Nod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy'n rhoi gwybod i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig ac i fyfyrwyr tramor ei fod yn bodloni'r gofynion cenedlaethol o ran safonau ac ansawdd.

QAA reviewers judged that the Grŵp's academic standards, the quality of its student learning opportunities, and the quality of information about its learning opportunities all meet UK expectations. Furthermore, the Grŵp was one of only 4 out of a total of 62 Further Education colleges who achieved a commended judgment for 'the enhancement of student learning opportunities.'

The Grŵp can now display the QAA Quality Mark, indicating to UK and international students that it meets national requirements for standards and quality.



Sicrhaodd un o fyfyrwyr Chweched Y Rhyl, sef Vincent Proud o Bensarn, le i astudio'r Gwyddorau Naturiol Ffisegol ym Mhrifysgol Caergrawnt wedi iddo gael graddau A* mewn Mathemateg, Mathemateg Bellach a Ffiseg, a gradd A mewn Cemeg, yn ei arholiadau Lefel A.

Rhyl Sixth student Vincent Proud, from Pensarn, gained a place at Cambridge University to study Physical Natural Sciences after gaining A*s in Maths, Further Maths and Physics and an A grade in Chemistry at A Level.

Llwyddodd Hannah Goodall, a gwblhaodd gwrs NVQ Lefel 3 mewn Coginio Patisserie a Danteithion Melys yng Ngholeg Llandrillo, i gael swydd breswyl lawn amser yng nghegin y Frenhines ar ôl i safon ei gwaith, ei phenderfyniad a'i hagwedd gyffredinol greu argraff ar swyddogion y Palas.

Hannah Goodall from Llandudno, who completed the NVQ Level 3 course in Pastry & Confectionery at Coleg Llandrillo, secured a full-time, live-in position within the Queen's residence, after impressing Palace officials with her "standard of work, determination and overall attitude."

Yn syth ar ôl cwblhau ei Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cafodd Samantha Williams swydd fel ymchwilydd gyda'r Grŵp Bioamrywiaeth, BDG. Yn ogystal, wedi i'w deallusrwydd a'i chraffter wneud argraff ar ei phennaeth newydd, derbyniodd ysgoloriaeth i astudio ym Mhrifysgol Rochester, Efrog Newydd.

Student Samantha Williams completed her BTEC Level 3 Extended Diploma in Health & Social Care, and immediately secured a job as a researcher within the Biodiversity Group (BDG). She was also awarded a scholarship to study at the University of Rochester in New York, after impressing her new boss with her "intelligence and perception."

Cafodd Michael Leach, a oedd yn dilyn prentisiaeth ym maes peirianneg, ei enwi'n 'Brentis y Flwyddyn' gan RenewableUK – corff sy'n cydnabod rhagoriaeth yn y diwydiant ynni adnewyddadwy.

Engineering apprentice Michael Leach was crowned 'Apprentice of the Year' by RenewableUK - the renewables industry body that recognises the brightest and the most outstanding talent from across the industry.

Cafodd Nhat Nguyen, sy'n hanu o Hanoi yn Fietnam, 3 gradd Rhagoriaeth (Rh* Rh* Rh) yn ei gwrs diploma BTEC Estynedig mewn Teithio a Thwristiaeth, a derbyniodd Ysgoloriaeth i ddilyn cwrs BA (Anrh) mewn Rheoli ym maes Twristiaeth ym Mhrifysgol Bournemouth.

Originally from Hanoi in Vietnam, student Nhat Nguyen gained triple distinctions (D* D* D) in his BTEC Extended Diploma in Travel & Tourism course, and was awarded a scholarship to study for a BA (Hons) degree in Tourism Management at Bournemouth University.

Cipiodd Scott Kerr, weldiwr dan brentisiaeth gyda chwmni Kelvin Owens Welding and Fabrication ar Ynys Môn, y wobr gyntaf yn y categori 'Weldio Uwch' yn rownd derfynol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a gynhaliwyd yng Nglannau Dyfrdwy.

Welding student Scott Kerr, an apprentice with Kelvin Owens Welding and Fabrication on Anglesey, scooped first place at the Skills Competition Wales 'Advanced Welding' national final in Deeside.

nod strategol
strategic goal

2

cefnogi anghenion sgiliau cyflogwyr yn economi ffyniannus gogledd cymru
support employer skills needs in a growing north wales economy

Babcock International Group

Arwyddodd y Grŵp Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Babcock International Group er mwyn sefydlu cyflenwad lleol o brentisiaid talentog ym maes awyrenneg. Bydd y prentisiaid yn derbyn hyfforddiant gyda Babcock yn RAF Y Fali ac yn astudio ar gyfer eu cymhwyster Peirianneg Awyrenegol yn adran Beirianneg Coleg Menai. Caiff 33 o beirianwyr awyrenegol eu hyfforddi mewn ymateb i bwysigrwydd cynyddol yr ysgol hyfforddi peilotiaid yn RAF Y Fali.

The Grŵp signed a Memorandum of Understanding with Babcock International Group to build a local pool of talented aeronautical apprentices. The apprentices will train with Babcock at RAF Valley and study their Aeronautical Engineering qualification in Coleg Menai's Engineering department. 33 aeronautical engineers will be trained in response to the growing importance of the pilot training school at RAF Valley.

Ynys Ynni / Energy Island

Mae'r Grŵp yw cydweithio'n agos â Phŵer Niwclear Horizon, Menter Newydd a phartneriaid eraill. Ei nod yw rhoi i'r bobl leol y sgiliau sy'n angenrheidiol i gael gwaith yn y Wylfa Newydd (neu yn y gadwyn gyflenwi) a chael gyrfaoedd llwyddiannus yng Ngogledd Orllewin Cymru. Yn ystod 2015/16, cwblhaodd y Grŵp brosiect llwyddiannus iawn (a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru) a roddodd brofiadau cyffrous i 2,500 o ddisgyblion ysgol ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).

The Grŵp is working closely with Horizon Nuclear Power, Menter Newydd and other partners, with the aim of providing local people with the skills to gain work as part of the Wylfa Newydd development (or in the supply chain) and cultivate successful careers in North West Wales. During 2015/2016, the Grŵp completed a very successful project (funded by Welsh Government) which provided 2,500 school pupils with exciting STEM experiences.

Prentisiaethau Uwch
Higher Apprenticeships

Mae'r Grŵp wedi cynyddu ei ddarpariaeth Prentisiaethau Uwch mewn modd strategol drwy ddatblygu dros 13 llwybr gwahanol. Hyd yma, cofrestrodd dros 400 dysgwr profiadol, a oedd yn ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli ac a allai ddilyn rhaglen academaidd a galwedigaethol ar lefel 4 neu lefel 5, gyda ni. Mae nifer sylweddol yn dal i ddilyn y rhaglen a rhagwelwn y bydd y cyfraddau llwyddo'n dda.

The Grŵp has strategically grown its Higher Apprenticeship provision by developing over 13 different pathways. To date we have enrolled over 400 experienced learners who are all in management roles and able to undertake academic and vocational study at level 4 or 5. A significant number of enrolments are still on scheme and we predict good achievement rates.

Gwobrau Prentisiaethau Cymru
Apprenticeship Awards Cymru

Bu'r seremoni wobrwyo genedlaethol yn noson lwyddiannus i Grŵp Llandrillo Menai, gyda'r asesydd, Mark McDonough, a'r ddwy ddysgwraig, Cassidy Jones ac Angharad Jones, yn derbyn gwobrau. Enillodd Mark deitl Asesydd Dysgu Seiliedig ar Waith y Flwyddyn, derbyniodd Cassidy wobr Dysgwr y Flwyddyn - Hyfforddeiaeth (Ymgysylltu) a chyflwynwyd gwobr Dysgwr y Flwyddyn - Hyffordeiaeth (Lefel 1) i Angharad.

The national awards ceremony proved a successful evening for Grŵp Llandrillo Menai as assessor Mark McDonough and two learners, Cassidy Jones and Angharad Jones, all collected awards. Mark won the Work-based Learning Assessor of the Year award, Cassidy collected the Traineeship Learner of the Year (Engagement) Award and Angharad won the Traineeship Learner of the Year (Level 1) Award.

(a)

(b)

(c)

Uchod / Above: (a) Mark McDonough, (b) Cassidy Jones and (c) Angharad Jones

nod strategol
strategic goal

3

darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant drwy bartneriaethau a rhwydweithiau effeithiol
deliver education and training opportunities through effective networks and partnerships

Prosiect SEE ac Academi Busnes Gogledd Cymru
SEE Project & North Wales Business Academy (NWBA)

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd dau brosiect mawr sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr ac a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r prosiect Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr (SEE) yn darparu rhaglenni hyfforddi a chymhorthdal i fusnesau ledled Gogledd Cymru er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth gweithwyr. Eisoes darparwyd hyfforddiant galwedigaethol ar ffurf cymwysterau NVQ a chyrsiau byr mewn amrediad o sectorau allweddol.

Mewn partneriaeth â darparwyr AB/AU ledled y rhanbarth, cefnoga Academi Busnes Gogledd Cymru fusnesau yn y sector preifat drwy ddarparu iddynt raglenni strategol a phwrpasol ym maes rheoli. Cynllunnir y rhaglenni hyn i gyd-fynd â thargedau penodol y sefydliadau.

During the course of the year, two major employer-focused European Social Fund (ESF) projects were approved. The Skills for Employers and Employees (SEE) project provides businesses across North Wales with subsidised training and development to raise employee skills and knowledge. Vocational training in the form of NVQs and short courses has already been provided in a range of key sectors.

In partnership with HE/FE providers across the region, the innovative North Wales Business Academy (NWBA) supports private sector businesses with a strategic and tailored management programme, designed to meet specific organisational goals.

Rhyngwladol
International

O ran y gwaith rhyngwladol a wneir mewn colegau, mae'r pwyslais yn newid i gefnogi datblygu addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Rydym wedi llwyddo i ymateb i hyn drwy gyfrwng cyfres o gynlluniau sy'n seiliedig ar brosiectau, gan ddatblygu a rhoi cwricwlwm Mentergarwch newydd ar waith ar ran sector galwedigaethol Gwlad Thai; datblygu sgiliau arwain mewn colegau galwedigaethol yng Ngwlad Thai a chyflwyno cyrsiau datblygu staff yn y gweithle yn Ningbo, Tsieina. Yn rhan o'r berthynas gynaliadwy hon a gweithgareddau'r prosiect, croesawodd y Grŵp dros gant o ymwelwyr, yn weithwyr ac yn fyfyrwyr, i Ogledd Cymru.

International work in colleges is experiencing a shift in emphasis towards supporting the development of vocational educational and training. We have been successful in responding to this with a range of project-based initiatives, including the development and implementation of a new Enterprise curriculum for the Thai vocational sector; leadership development in Thai vocational colleges, and delivering work-based learning staff development in Ningbo, China. As part of this sustainable relationship development and project activities, the Grŵp has welcomed over 100 professional and study visitors to North Wales.

Trosolwg o'r Partneriaethau 14–19 ag Ysgolion
14-19 School Partnerships Overview

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol siroedd Conwy, Dinbych, Gwynedd a Môn i ddarparu addysg a hyfforddiant yn ei golegau i ddisgyblion ysgol 14–19 oed. Yn 2016/17, astudiodd y dysgwyr oddeutu 1500 o bynciau galwedigaethol Lefel 2 a 3 a chymwysterau Lefel A mewn ystod eang o bynciau.

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn 2016:

- Darparwyd hyfforddiant i 36 o ddysgwyr Peirianneg, a fydd yn eu helpu i feithrin y sgiliau sy'n angenrheidiol i fanteisio ar ddatblygiadau'r Ynys Ynni.
- Llwyddodd pawb mewn 46 pwnc, gan gynnwys cyrsiau Adeiladu, Peirianneg, Busnes, Trin Gwallt, Celfyddydau Perfformio a TG.
- Ar ôl cwblhau cyrsiau 14–16, aeth nifer dda ymlaen i ddilyn rhaglenni AB llawn amser ledled y Grŵp

Grŵp Llandrillo Menai works closely with Conwy, Denbighshire, Gwynedd and Mon local authorities to deliver education and training in college as part of a learner's 14-19 school education. In 2016/17, learners undertook approximately 1500 subjects at Vocational Levels 2, 3 and A Level in a wide range of subjects.

Achievements in 2016 included:

- Delivery of training to 36 Engineering learners, to develop the skills needed to take advantage of the developments on Energy Island.
- 100% success in 46 subjects, including Construction, Engineering, Business, Hairdressing, Performing Arts and IT.
- Very good rates of progression from 14-16 into full-time FE programmes across the Grŵp

Prifysgol Bangor
Bangor University

Ystyrir ein perthynas â Phrifysgol Bangor yn batrwm o ran cydweithio ym maes AU/AB. Sefydlwyd partneriaeth i gynnwys yr holl gydweithio a wnawn â Bangor, sy'n cynnwys darparu cyrsiau AU ledled y Grŵp, marchnata'n rhyngwladol ar y cyd, y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, cyd-brosiectau Ewropeaidd a chyrsiau yn y Ganolfan Rheolaeth ym Mangor.

Our relationship with Bangor University is seen as a model of HE/FE collaboration. A new partnership structure has been put into place to encompass all of our work with Bangor, which includes delivery of HE courses across the Grŵp, joint International marketing, Welsh for Adults provision, joint European projects and courses within the Bangor Management Centre.

nod strategol
strategic goal

4

bod yn sefydliad cynaliadwy sy'n sefydlog yn ariannol.
be a sustainable and financially stable organisation.

Canolfan Cefni

Yn ystod yr haf, cwblhawyd adeilad modwlar deulawr newydd, a gostiodd £2.6m i'w godi, ar gyfer myfyrwyr yr Adran Sgiliau Byw'n Annibynnol a Hyfforddeion. Mae'r adeilad pwrpasol hwn yn cynnwys cegin hyfforddi i ddysgu sgiliau sylfaenol, cegin fasnachol a salon gwallt, yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau TG o'r radd flaenaf. Mae gan yr adeilad sgôr A o ran effeithlonrwydd ynni ac mae'n caniatáu i'r Grŵp resymoli ei ystâd a lleihau costau cynnal a chadw.

A new £2.6m two storey modular building for Independent Living Skills and Traineeship learners was completed over the summer. This purpose-built building includes a basic skills training kitchen, a commercial kitchen and hair salon, as well as classrooms and state-of-the-art IT facilities. The building has an energy rating A and allows the Grŵp to rationalise its estate and reduce maintenance costs.

Y Ddraig Werdd
Green Dragon

Yn 2013, cyrhaeddodd y Grŵp Safon Amgylcheddol uchaf y Ddraig Werdd, sef Lefel 5. Er mwyn parhau ar y lefel hon, caiff y Grŵp ei asesu bob blwyddyn ac yn 2016, llwyddodd campysau Coleg Llandrillo i gadw'r statws lefel 5. Aeth yr aseswyr ar daith o gwmpas y campysau er mwyn gwirio nad yw ein gweithgareddau'n niweidio'r amgylchedd a'n bod yn gwella'n hôl troed amgylcheddol yn barhaus mewn perthynas â gwastraff, ailgylchu a defnyddio ynni a dŵr.

The Grŵp achieved the highest level 5 of Green Dragon Environmental Standard in 2013. In order to retain this level, the Grŵp is assessed annually and in 2016, Coleg Llandrillo campuses successfully retained the level 5 award. The assessors toured the campuses to check that our activities do not cause damage to the environment and that we are continually improving our environmental footprint in regards to waste and recycling & energy and water usage.

Wi-Fi

Fis Ionawr 2016, dechreuwyd ar y gwaith a'r buddsoddiad sylweddol o sefydlu isadeiledd Wi-Fi arloesol y gellir ychwanegu ato. Drwy gyflwyno'r ddarpariaeth hon yn raddol i rannau allweddol ledled safleoedd y Grŵp, sicrheir perfformiad ardderchog a gwasanaethau rhyngrwyd llawn i ddefnyddwyr ar eu dyfeisiau personol ac ar galedwedd a ddarperir gan y Grŵp. Bydd y gwaith o ehangu'r ddarpariaeth Wi-Fi'n parhau yn ystod 2017. Ar gyfartaledd, mae 4,000 y dydd yn cysylltu â'r Wi-Fi ar yr un pryd.

Significant work and major investment started in January 2016, to implement a scalable leading-edge Wi-Fi infrastructure. The rollout to key areas across all Grŵp sites provides excellent performance and full internet services to users on personal devices and Grŵp-provided hardware. Expansion will continue during 2017 to further increase Wi-Fi coverage. Average daily concurrent Wi-Fi connections is currently 4,000.

Trosolwg o'r Ddarpariaeth Datblygu Staff
Staff Development Overview

Yn 2015/16, cymerodd y staff ran mewn 7500 o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus mewnol ac allanol a oedd yn gymorth i'r Grŵp gyflawni ei flaenoriaethau, fel a ganlyn /
In 2015/16, staff participated in approximately 7500 internal and external CPD activities, which supported the achievement of Grŵp priorities as follows:

- Bu 2700 aelod o staff y Grŵp mewn dyddiau/cynadleddau datblygu staff
- Cynhaliwyd Cynhadledd Dysgu yn y Gweithle ar ysbrydoli ym maes Mathemateg, ynghyd ag arbrofion ategol
- Bu 587 aelod staff ar gyrsiau diweddaru proffesiynol/galwedigaethol
- Bu 769 aelod staff mewn cyrsiau datblygiad proffesiynol mewnol mewn amrediad o feysydd, gan gynnwys: TGD, Google Classroom, eDRAC, eBortffolio, cefnogi dysgwyr o ran Iechyd Meddwl
- Astudiodd 22 aelod staff ar gyfer cymwysterau AU
- Astudiodd 82 aelod staff ar gyfer cymwysterau addysgu/asesu
- Cwblhaodd 640 aelod staff hyfforddiant Diogelu Data Ar-lein
- 2700 staff attended Grŵp staff development days/conferences
- There was a WBL conference on motivational Maths and supported experiments
- 587 staff undertook professional/ occupational CPD updating
- 769 staff attended in house CPD in a range of areas including: ILT, Google Classroom, eDRAC, ePortfolio, supporting learners with Mental Health
- 22 staff undertook HE qualifications
- 82 staff undertook teacher training/ assessor qualifications
- Over 640 staff completed Online Data Protection training

Dywedodd 92% o'r staff y byddent yn argymell yr hyfforddiant a theimlai 91% y byddai'r hyfforddiant yn eu helpu i wella eu perfformiad yn y gwaith.
92% of staff stated that they would recommend the training and 91% felt that the training would help to improve their performance at work.

canlyniadau arolwg survey results

addysg bellach
further education

Er mwyn canfod eu lefelau bodlonrwydd, cymerodd dysgwyr AB ledled y Grŵp ran mewn arolwg eang. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn:

Cymerodd... **3,465 o fyfyrwyr**
y Grŵp ran yn yr arolwg hwnnw.

Ym marn... **95.9%**
o'r myfyrwyr, roedd y modd y lledaenir gwybodaeth am gyrsiau'n **'Dda'** neu'n **'Dda Iawn'.**

Roedd... **96%**
o'r myfyrwyr yn ystyried bod yr addysgu'n **'Dda'** neu'n **'Dda Iawn'** ar eu cwrs.

Nododd... **95.6%**
o'r myfyrwyr iddynt gael profiad cyffredinol **'Dda'** neu'n **'Dda Iawn'** yng ngholegau'r Grŵp.

Roedd yr arolwg yn cynnwys dysgwyr Addysg Uwch, Dysgu yn y Gweithle, Dysgu Oedolion a'r Gymuned a Chymraeg i Oedolion.

FE learners across the Grŵp undertook an extensive survey to ascertain satisfaction levels. The feedback was very positive:

A total of... **3,465 students**
across the Grŵp took part.

95.9%
of students rated in the dissemination of information about courses as **'Good'** or **'Very Good'.**

96%
of students rated the teaching on their course as **'Good'** or **'Very Good.'**

95.6%
of students rated their overall experience at the Grŵp's colleges as **'Good'** or **'Very Good.'**

The survey included learners in Further Education, Work-based Learning, Adult & Community Learning and Welsh for Adults.

yr arolwg cenedlaethol o fyfyrwyr (AU) national student survey (HE)

addysg uwch
higher education

Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, a gasglodd farn dros dri chan mil o fyfyrwyr ac a gomisiynir gan y Cyngor Cyllido Addysgu Uwch, daeth y Grŵp yn uwch na 7 o'r 8 prifysgol sydd yng Nghymru, ac yn drydydd o blith yr 17 coleg a phrifysgol sydd yng Nghymru, o ran bodlonrwydd myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gradd.

Dim ond 1% oedd rhwng cyfradd bodlonrwydd myfyrwyr y Grŵp, sef 91%, a chyfradd bodlonrwydd myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a ddaeth i'r brig, ac roedd sgôr y Grŵp 8% yn uwch na ffigwr 2015, sef 83%.

The National Student Survey (NSS) of nearly a third of a million students, commissioned by the Higher Education Funding Council, ranked the Grŵp above 7 out of the 8 Welsh universities, coming in third place out of all 17 colleges and universities in Wales in terms of university level student satisfaction ratings.

The Grŵp's student satisfaction rating of 91% was only 1% behind top-placed Aberystwyth University, up 8% on 2015's figure of 83%.

The National Student Survey
www.thestudentsurvey.com

penawdau ariannol financial headlines

£68m

2015/16 Incwm / Income

Mae incwm y Grŵp yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau. Daw 79% gan Lywodraeth Cymru, ar ffurf grantiau Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith yn bennaf. O blith holl golegau Cymru, y Grŵp sy'n cynhyrchu'r incwm mwyaf.

The Grŵp's income is derived from a variety of sources, with 79% coming from Welsh Government, the majority of this being Further Education and Work-based Learning grants. The Grŵp generates the highest income of all of the colleges in Wales.

Cynhyrchu Arian Cash Generation

£1.072m

Yn sgil gwargedau ariannol, gellir buddsoddi yng nghyfleusterau'r Grŵp. Yn 2015/16, gwariwyd ar adeilad Canolfan Cefni ar Ynys Môn, ar Uned Foch newydd sbon o'r radd flaenaf ar fferm Glynllifon ac ar gyflwyno gwell cyfleusterau Wi-Fi ledled ystâd y Grŵp.

The generation of cash surpluses allows investment in the Grŵp's facilities. In 2015/16 we have seen investment in the Canolfan Cefni building on Anglesey, a brand new state-of-the-art Pig Unit for the farm at Glynllifon and the rollout of improved Wi-Fi across the Grŵp's estate.

Costau staffio / Staffing costs

£45.6m

Mae'r Grŵp yn gwario oddeutu 67% o'i incwm ar gostau staffio, ac yn ystod 2015/16 cyflogodd, ar gyfartaledd, 1,242 aelod staff a oedd yn cyfateb i staff llawn amser.

The Grŵp spends around 67% of its income on its staffing costs, and employed, on average, 1,242 full-time equivalent staff during 2015/16

Cyfrifon Statudol / Statutory Accounts

Dengys y cyfrifon statudol am 2015/16 ddiffyg o £2.6m ar ôl yr addasiadau a wnaed yn sgil costau pensiynau FRS102 (£1.9m) ac eitemau eithriadol sy'n gysylltiedig â'r cwtogi a wnaed ar grant rheolaidd AB am 2014/15 (£1.3m) a chostau ad-drefnu staff (£0.44m).

The statutory accounts for 2015/16 show a deficit position of £2.6m after adjustments for FRS102 pension costs (£1.9m) and exceptional items relating to a clawback of the FE recurrent grant for 2014/15 (£1.3m) and staff restructuring costs (£0.44m).

Lefelau Sicrwydd yn ôl Archwilwyr Mewnol
Internal Audit Assurance Levels

Cymherir y lefelau sicrwydd a gafwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn yr holl adolygiadau sicrwydd a gynhaliwyd yn ystod 2015/16.
Compares assurance levels provided by the internal audit service across all assurance reviews during 2015/16.

Lefel sicrwydd / Assurance Level	**Dim Sicrwydd** No Assurance %	**Sicrwydd Rhannol** Partial Assurance %	**Sicrwydd Rhesymol** Riasonable Assurance %	**Sicrwydd Sylweddol** Substantial Assurance %
Grŵp Llandrillo Menai 2015/16	0.00%	0.00%	0.00%	100.00%
Grŵp Llandrillo Menai 2014/15	0.00%	0.00%	16.67%	83.33%
Y cyfartaledd ar draws cleientiaid addysg bellach RSM Tenon yn 2015/16 **Average across RSM Tenon's further education client base in 2015/16**	2.80%	11.45%	32.48%	53.27%

Rheoli Cyllid
Financial Management

Mae gan y Grŵp system gadarn i reoli cyllid a dengys y meincnodi a wna archwilwyr mewnol y Grŵp ein bod yn cymharu'n ffafriol ag eraill ar draws y sector.

The Grŵp maintains a robust system of financial controls and the benchmarking performed by the Grŵp's internal auditors show that we compare favourably across the sector.

incwm a gwariant
income & expenditure

Incwm
Income



2016	2015	
£40,749,000	£43,168,000	Grant rheolaidd AdAS DfES recurrent grant
£7,344,000	£6,662,000	Grant dysgu seiliedig ar waith Work-based learning grant
£5,586,000	£5,042,000	Incwm o grantiau eraill AdAS Other DfES grant income
£5,970,000	£5,918,000	Ffioedd dysgu Tuition fees
£388,000	£409,000	Grant rheolaidd CCAUC HEFCW recurrent grant
£620,000	£575,000	Incwm o fasnachfreinio Franchise income
£566,000	£1,704,000	Cyllid ewropeaidd European funding
£1,325,000	£1,004,000	Incwm arlwyo Catering income
£513,000	£673,000	Incwm o weithgareddau ffermio Farming activities income
£1,367,000	£1,136,000	Incwm o grantiau eraill Other grant income
£3,856,000	£4,465,000	Incwm arall Other income
£57,000	£43,000	Incwm o fuddsoddiadau Investment income
£68,341,000	**£70,799,000**	

Gwariant
Expenditure



2016	2015	
£45,649,000	£45,520,000	Costau staffio Staff costs
£7,255,000	£8,202,000	Costau addysgu nad ydynt yn ymwneud â thâl Teaching non-pay costs
£1,953,000	£2,322,000	Costau gweinyddu a chostau cyffredinol Administration and general costs
£5,399,000	£5,713,000	Costau mewn perthynas ag adeiladau Premises costs
£2,669,000	£2,246,000	Treuliau eraill Other expenses
£4,192,000	£4,417,000	Dibrisiant Depreciation
£152,000	£195,000	Llog a chostau ariannol eraill Interest and other finance costs
£67,269,000	**£68,615,000**	
£1,072,000	**£2,184,000**	Gwarged Rheoladwy Controllable surplus

cenhadaeth
mission

Ysbrydoli llwyddiant drwy ddarparu addysg a hyfforddiant ardderchog.
Inspiring success by providing excellent education and training.

ein gwerthoedd
our values

- Proffesiynoldeb
- Arloesedd
- Rhagoriaeth
- Chydraddoldeb

Ein nod yw sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael eu trin â pharch a'n bod yn rhoi iddynt y sgiliau a'r nodweddion sy'n angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd.

- Equity
- Quality
- Innovation
- Professionalism

Our aim is to ensure that all our learners are treated with respect and that we equip them with the skills and qualities to succeed in life.

Grŵp Llandrillo Menai

Coleg Llandrillo

Coleg Llandrillo
Llandrillo-yn-Rhos /
Rhos-on-Sea
Conwy LL28 4HZ
01492 546 666

Coleg Meirion Dwyfor

Coleg Meirion-Dwyfor
Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW
01341 422 827

Coleg Menai

Coleg Menai
Bangor
Gwynedd LL57 2TP
01248 370 125